Fy Ffrind Dychymyg

Bob dydd, ar amser, yn aros amdanaf yn amyneddgar. Ei hwyneb crwn wedi addurno gan frychau haul, ei llygaid yn ddeimwntiau disglair, yn gwenu fel giat. Bob bore, wrth y llidiart yn barod am ddiwrnod, o ddirgelwch ac antur.

Roeddent yn darganfod eitemau gwerthfawr oedd wedi cael eu claddu am filiynau o flynyddoedd. Yn brwydro yn erbyn coed a oedd yn trio ein rhwystro, gan achub adar oedd wedi eu cymryd yn wystlon, a gadael iddynt ymledu eu hadenydd ar gyfer hedfan trwy'r awyr perffaith unwaith eto. I gyd mewn un diwrnod, bob diwrnod, saith gwaith yr wythnos. Hi a fi. Y ffrindiau gorau yn y byd.

Unwaith eto, fel bob tro or blaen, roedd hi yno wrth y llidiart yn disgwyl amdanaf. Gyda'i, llygaid glas fel yr awyr a gwen gyfeillgar ar ei hwyneb. Heddiw redden yn mynd i archwilio mewn i flodau nad oedd y byd byth wedi'u gweld o'r blaen, a chreu bwystfil anghredadwy allan o fwd a ddaeth yn fyw o flaen ein llygaid bach llawn syndod. Dyna oedd ein diwrnod, un waith yr wythnos bob wythnos.

Wrth y llidiart y bore hwwnw yr oedd hi'n sefyll yn barod amdanaf. Gyda'I llygaid glas a'u gwên bychain ar ei gwefus. Fe roedden ni am fynd am dro heddiw gyda phicnic er mwyn cael siarad am y tro cyntaf ers beth oedd yn teimlo fel canrifoedd. Hwnnw oedd ein diwrnod, unwaith y mis, bob mis.

Roedd hi yno dwi'n siwr yn aros amdanaf, ond ni roeddwn yn medru ei gweld hi. A'i hwyneb bach yn llawn siom, a ddagrau yn llenwi ei llygaid glas, i yna rhedeg lawr ei bochau crwn. A oedd hi'n fy nghwylio i gyda fy ffrind newydd yn cerdded yr hen lwybr trwy'r goedwig redden ni'n arfer cerdded i lawr?

Nid yw hi yno ddim mwy, dim ond atgof hwyl gallaf gofio am fy mhlentyndod. Fy hen ffrind dychmygol.

Amren